

**Strategaeth er Atal a
Darganfod Twyll,
Llwgrwobrwyo a
Llygredigaeth**

2016

CYNNWYS

DATGANIAD POLISI

- 1 Bwriad y Polisi hwn yw cwmpasu twyll, lladrad, llygredigaeth a llwgrwobrwyo.
- 2 Mae'r Cyngor yn disgwyl y safonau priodoldeb a moeseg uchaf wrth gyflawni ei wasanaethau a rheoli ei adnoddau a'i asedau.
- 3 Bydd y Cyngor yn cyflawni ei waith yn deg, yn onest ac yn agored bob amser.
- 4 Nid yw'r Cyngor ac ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw fath o dwyll, llygredigaeth neu llwgrwobrwyo wrth ymgymryd ag unrhyw un o'i gyfrifoldebau, gan gynnwys twyll Budd-dal Tai/Treth Gyngor.
- 5 Bydd y Cyngor yn atal twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo trwy ddylunio a ffurfio polisiau a systemau cymesur i leihau'r risg.
- 6 Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o ddarganfod ac ymchwilio i dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo gan gynnwys defnyddio cosbau grymus, effeithiol a gweithdrefnau gwella lle cânt eu nodi.
- 7 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llwgrwobrwyo yn drosedd. Nid yw ac ni fydd y Cyngor yn talu cil-dyrnau nac yn cynnig cymhellion amhriodol i unrhyw un am unrhyw ddiben, ac ni fydd yn derbyn cil-dyrnau na chymhellion amhriodol. Mae hi'n drosedd defnyddio trydydd parti fel cyfrwng i gyfeirio cil-dyrnau at bobl eraill.
- 8 Nid yw ac ni fydd y Cyngor yn ymgysylltu'n uniongyrchol mewn llwgrwobrwyo nac yn ei annog. Mae'r Cyngor yn ymroi i atal, rhwystro a darganfod llwgrwobrwyo ac yn mabwysiadu safiad o ddim goddefgarwch tuag at llwgrwobrwyo.

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn oddeutu 4,500 o staff ac yn gwario dros £300 miliwn y flwyddyn. Mae'n comisiynu ac yn darparu ystod eang o wasanaethau i unigolion ac aelwydydd ac yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.
- 1.2 Fel gydag unrhyw sefydliad mawr arall, mae maint a natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu bod risg parhaus o golled yn sgil twyll a llygredigaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol. Ceir risg parhaus hefyd o lygredigaeth gan fod y Cyngor yn darparu ac yn caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Felly, mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith systemau cymesur i leihau'r risg hwn ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n gyson.
- 1.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod twyll nid yn unig yn achosi colledion ariannol ond hefyd yn andwyol i ddarpariaeth gwasanaethau ac yn niweidiol i enw da a ffydd yn y Cyngor ac mewn cyrff cyhoeddus yn gyffredinol.
- 1.4 Mae'r Cyngor, yn ei bolisiâu a'i weithdrefnau, yn rhoi'r neges glir na fydd yn goddef unrhyw amhriodoldeb gan weithwyr, Aelodau etholedig na sefydliadau trydydd parti. Mae'r rhain i gyd yn arwyddion o fframwaith grymus sydd ar waith i leddfu'r risg o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo.
- 1.5 Mae gan y Strategaeth gefnogaeth lawn Aelodau a Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor.
- 1.6 Mae'r Cyngor yn ymwybodol hefyd bod lefel uchel o graffu allanol ar ei fusnes gan amrywiaeth o gyrff sydd, yn gwbl gyfiawn, yn disgwyl y bydd gan y Cyngor strategaeth effeithiol i atal a darganfod twyll. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys:
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
 - Swyddfa Archwilio Cymru,
 - Arolygiaethau Statudol fel ESTYN ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC),
 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi,
 - Archwilwyr sefydliadau y mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant iddynt yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cyllid uniongyrchol i'r Cyngor e.e. Llywodraeth Cymru a sefydliadau ariannu Ewropeaidd.

2 CWMPAS

- 2.1 Mae'r strategaeth hon yn cwmpasu'r holl fusnes, gweithgareddau a thrafodion a gyflawnir naill ai gan y Cyngor neu ar ei ran. Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau ac i'r holl bobl hynny sy'n gweithio ar gyfer neu ar ran y Cyngor i gynnwys gweithwyr, staff asiantaeth, ymgynghorwyr, contractwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr.
- 2.2 Mae'r Strategaeth yn ystyried darpariaethau Deddf Twyll 2006, Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac arfer gorau megis "Managing the Risk of Fraud and Corruption" CIPFA.
- 2.3 Nid yw'r Strategaeth yn sefyll ar ei phen ei hun ac mae'n gydran allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Yn hynny o beth, dylid ei ddarllen ar y cyd â dogfennau allweddol eraill fel:

Y Cod Llywodraethu Corfforaethol

Y Cod Ymddygiad i Aelodau Etholedig

Cod Ymddygiad y Gweithwyr

Rheoliadau Ariannol gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Contract

Polisi Chwythu'r Chwiban

Y Polisi Gwrth-wyngalchu Arian

- 2.4 Mae sawl diffiniad o dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Awgryma dogfen arfer gorau CIPFA fod diffiniadau manwl gywir yn fan cychwyn da i ddynodi risgiau. O gofio hyn, defnyddir y diffiniadau canlynol i ddisgrifio'r gweithgareddau sydd o fewn campws y strategaeth hon.

Twyll

Gweithred dwyllodrus gyda'r bwriad o gael budd personol neu achosi colled i rywrai eraill.

Llygredigaeth

Camddefnyddio swydd gyhoeddus er budd preifat.

Llwgrwobrwyo

Rhoi mantais ariannol neu fantais arall i annog yr unigolyn hwnnw i gyflawni ei weithrediadau neu weithgareddau'n amhriodol neu wobrwyo'r unigolyn hwnnw am wneud hynny eisoes.

Gellir dod o hyd i ddiffiniadau cyfreithiol manwl yn Atodiad 2.

At ddibenion eglurder a byrder, defnyddir y term "Twyll" yn y ddogfen hon i ddisgrifio pob un o'r uchod.

3 DULL GWRTH-DWYLL

- 3.1 Caiff polisi'r Cyngor mewn perthynas â thwyll ei nodi'n glir ar ddechrau'r ddogfen hon.
- 3.2 Bydd y Cyngor, yn unol â'r polisi hwn, ac o ystyried arfer gorau, yn seilio ei ymdriniaeth tuag at atal twyll ar yr isod:
 - (a) Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i wrthwynebu twyll
 - (b) Bydd y Cyngor yn dynodi ac yn rheoli risgiau twyll
 - (c) Bydd y Cyngor yn darparu adnoddau cymesur i roi'r strategaeth ar waith
 - (d) Bydd y Cyngor yn cymryd camau grymus mewn ymateb i dwyll
 - (e) Bydd y Cyngor yn monitro effeithiolrwydd y strategaeth hon
- 3.3 Mae gan y Strategaeth hon gefnogaeth lawn aelodau etholedig y Cyngor a'i uwch reolwyr.
- 3.4 Rhaid i'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a lliniaru'r risg o dwyll gael eu deall yn glir a'u harddel yn effeithiol. Maer rhain i'w gweld yn Atodiad 4.
- 3.5 Yn benodol, rhaid i'r Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau:
 - (a) bod cofrestrau risg gwasanaethau'n adlewyrchu'n gywir y risg o dwyll, gan gynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg e.e. yn sgil newidiadau mewn technoleg neu arferion gwaith
 - (b) bod gweithdrefnau rheoli'n effeithiol ac yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir;
 - (c) y cydymffurfir â Rheoliadau Ariannol gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Contract
 - (d) bod gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwrth-dwyll y sgiliau a'r wybodaeth briodol a'u bod yn cael yr awdurdod a'r mynediad priodol i'w galluogi nhw i wneud y gwaith hwn yn effeithiol

4 DIWYLLIANT, SAFONAU A MOESEG

- 4.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod er mwyn gwrthsefyll twyll yn effeithiol, bod angen diwylliant gwrth-dwyll effeithiol
- 4.2 Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn pennu ei ymrwymiad i'r safonau moesegol a moesol uchaf a hefyd i ddiwylliant o onestrwydd, didwylledd ac atebolrwydd.
- 4.3 Mae'r Cyngor wedi cytuno set o werthoedd craidd sy'n arwain ei waith ac yn ffurfio'r ffordd y mae'n mynd ati i gyflawni ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion. Dyma nhw:
- Undod
 - Balchder
 - Parch
 - Cywirdeb
- 4.4 Disgwylir i'r holl weithwyr, sefydliadau partner yn ogystal â sefydliadau sy'n gweithio ar ran y cyngor, rannu'r ymrwymiad hwn ac arwain trwy esiampl wrth sicrhau y glynir wrth reoliadau, gweithdrefnau, arferion a chodau ymddygiad y Cyngor yn unol â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Pwyllgor Nolan sef:
- Anhunanoldeb
 - Cywirdeb
 - Gwrthrychedd
 - Atebolrwydd
 - Didwylledd
 - Gonestrwydd
 - Arweinyddiaeth
- 4.5 Yn ogystal, bydd disgwyl i'r holl Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig lynu wrth "Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001". Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at saith egwyddor Nolan sydd wedi'u gosod uchod trwy gynnwys gofynion mewn perthynas â Stiwardiaeth, Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith, a Chydraddoldeb a Pharch.
- 4.6 Mae Cyfansoddiad, y Codau Ymddygiad i Weithwyr ac Aelodau, polisïau Rheoliadau Ariannol, Chwythu'r Chwiban a Gwrth-wyngalchu Arian y Cyngor yn sail i ymrwymiad cryf i fframwaith moesegol effeithiol sy'n cefnogi diwylliant ataliol, gwrth-dwyll.

- 4.7 Mae aelodau etholedig a gweithwyr y Cyngor yn chwarae rôl bwysig o ran creu a chynnal y diwylliant hwn. Anoga'r Cyngor y rheiny sy'n gweithio i'r Cyngor neu gyda'r Cyngor yn gadarnhaol i fynegi pryderon mewn perthynas â thwyll ni waeth pa mor uchel yw eu gradd neu statws gan wybod y bydd y pryderon hynny'n cael eu trin yn gyfrinachol lle bo'n bosibl, heb iddynt ofni dial neu erledigaeth er mwyn gallu ymchwilio'n briodol ac yn deg iddynt. Mae canllawiau ar sut i wneud y fath adroddiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.
- 4.8 Anogir aelodau'r cyhoedd i roi gwybod am unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt. Gallai hyn fod yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn Atodiad 6 neu drwy ddefnyddio cysylltiadau gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor; www.sirddinbych.gov.uk
- 4.9 Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd unrhyw honiadau a ddaw i law yn cael eu cymryd o ddifrif, yn cael eu hymchwilio'n briodol iddynt, bod y cosbau priodol yn cael eu gosod a chymryd camau adferol lle caiff twyll ei ddarganfod.

5. MESURAU GWRTH-DWYLL

5.1 Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer sicrhau gweithgareddau atal twyll effeithiol yn gofyn am fesurau sy'n cwmpasu'r canlynol:

**Atal
Rhwystro
Darganfod ac Ymchwilio
Cosbau, Adfer a Chywiro**

5.1.1 Atal

Polisiau a Gweithdrefnau

Mae'r Cyngor yn credu'n gryf mai'r ffordd orau o guro twyll yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Er mwyn cyflawni'r fath amcan, mae'n hanfodol fod gan y Cyngor set glir o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n gosod y rheolau lle gall aelodau etholedig, gweithwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr weithio'n effeithiol. Mae'r rhain yn elfennau annatod o'r amgylchedd rheoli mewnol corfforaethol, ac mae'n bwysig fod yr holl aelodau a gweithwyr yn ymwybodol o'u bodolaeth a'u cynnwys cyffredinol o leiaf.

5.1.2 Mae'r dogfennau polisi a threfniadol pwysicaf fel a ganlyn:-

- Y Cyfansoddiad, sy'n cynnwys yn benodol:-
 - y Rheoliadau Ariannol sy'n cynnwys Rheolau Gweithdrefn Contract
 - y Cod Ymddygiad i Aelodau
 - y Cod Ymddygiad i Weithwyr
 - Cynlluniau Dirprwyo
- Y Cod Llywodraethu Corfforaethol.
- Amodau Gwasanaeth y Gweithwyr.

5.1.3 Yn ogystal â'r uchod, mae rhai Adrannau wedi cyflwyno'u mesurau eu hunain a ddyluniwyd i reoli eu gweithgareddau penodol, er enghraifft llawlyfrau gweithdrefnau.

5.1.4 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yw sicrhau bod gan yr holl weithwyr fynediad parod i holl bolisiau a

gweithdrefnau cytûn y Cyngor, a lle bo'n briodol, eu bod yn cael hyfforddiant addas yn eu gweithredu.

- 5.1.5 Mae gan aelodau etholedig a gweithwyr gyfrifoldeb penodol i ddarllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol iddynt ac yn dilyn hynny, gweithredu'n unol â'r telerau a'r amodau ynddynt. Gallai'r Cyngor gymryd camau ffurfiol yn erbyn unrhyw un sy'n methu yn eu dyletswydd i gydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau cytûn.
- 5.1.6 Yn achos aelod etholedig, gallai'r Ombwdsmon atgyfeirio'r fath ddigwyddiad at y Pwyllgor Safonau. Yn achos gweithiwr, gallai'r Cyngor gymryd camau dan ei Bolisi a'i Weithdrefn Disgyblu.

5.2 Rheolaeth Fewnol

- 5.2.1 Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn llwyr gyfrifol am sicrhau bod yr holl systemau gweithredol, yn enwedig gweithdrefnau ariannol, yn ymgorffori lefel briodol o fecanweithiau rheoli mewnol. Mae'n hanfodol hefyd, lle bo'n bosibl ac yn ymarferol, bod rhaniad dyletswyddau clir yn bodoli yng ngweithrediad y system benodol, ac nad oes yr un unigolyn mewn sefyllfa lle gall ef neu hi gyflawni trafodyn cyflawn heb fod rhyw fath o archwiliad yn cael ei gynnwys yn y broses.
- 5.2.2 Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod eu Cofrestr Risg yn adlewyrchu'n gywir y risg o dwyll gan gynnwys unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.

5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai mesur ataliol allweddol wrth ddelio â thwyll yw bod rheolwyr yn cymryd camau effeithiol yn y cam recriwtio i sefydlu, cyn belled ag y bo'n bosibl, gonestrwydd a chyfanrwydd darpar weithwyr, boed ar gyfer swyddi parhaol, dros dro neu achlysurol a staff asiantaeth. Mae gweithdrefn recriwtio ffurfiol y Cyngor yn cynnwys dulliau diogelu priodol ar ffurf geirdaon ysgrifenedig, gwirio'r cymwysterau sydd gan bobl a hanes eu cyflogaeth. Fel mewn cyrff cyhoeddus eraill, cynhelir archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio gyda, neu sydd â chyswllt gyda phlant neu oedolion diamddiffyn.

5.4 Cydweithio

- 5.4.1 Mae'r Cyngor yn ymroi i weithio a chydweithredu gyda sefydliadau eraill i helpu atal twyll wedi'i drefnu. O ganlyniad, pan fo'n bosibl, bydd y Cyngor yn barod i helpu a chyfnwid gwybodaeth gyda Chynghorau a sefydliadau eraill i ddelio â thwyll.
- 5.4.2 Mae angen rheoli cyfnwid gwybodaeth yn dynn, yn enwedig mewn perthynas â diogelu data a materion hawliau dynol.

- 5.4.3 Bydd y Cyngor yn trefnu cyfleusterau cyfrinachol er mwyn galluogi ar gyfer pasio gwybodaeth a allai atal twyll.
- 5.4.4 Bydd y cyfleusterau hynny'n galluogi aelodau'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau etholedig a gweithwyr, i gynghori Archwilio Mewnol am achosion penodol o dwyll honedig. Felly, fe fydd y Cyngor yn sicrhau bod manylion llawn y cyfleusterau adrodd yn cael cyhoeddu'rwydd ar raddfa eang i bob darpar ddefnyddiwr, a bod yr holl wybodaeth a ddaw i law yn cael ei hymchwilio'n drwyadl iddi ac yr ymdrinnir yn ddigonol â hi, yn ôl yr angen.

5.5 Rôl Aelodau Etholedig

- 5.5.1 Fel cynrychiolwyr etholedig, mae gan bob aelod etholedig ddyletswydd i ddinasyddion a chwsmeriaid y Cyngor i amddiffyn y Cyngor ac arian cyhoeddus rhag unrhyw dwyll. Gwneir hyn trwy'r Polisi hwn, trwy gydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr Aelodau, Cyfansoddiad y Cyngor, Rheoliadau Ariannol, a deddfwriaeth berthnasol.
- 5.5.2 Bydd yr aelodau etholedig yn arwyddo addewid eu bod wedi darllen, deall ac y byddant yn glynu wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau pan fyddant yn cymryd eu swydd. Deuir â materion ymddygiad a moesegol at sylw aelodau etholedig yn ystod yr hyfforddiant cynefino ac maen nhw'n cynnwys y datganiad a chofrestru buddiannau. Mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn cynghori aelodau etholedig o ofynion deddfwriaethol neu drefniadol newydd.

5.6 Pennaeth Gwasanaeth a Delir, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

- 5.6.1 Mae gan y Pennaeth Gwasanaeth a Delir, y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 rolau allweddol wrth roi cyngor i bob aelod etholedig a staff am faterion *vires*, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, prawf a fframwaith polisi a materion cyllideb.
- 5.6.2 Mae'r Pennaeth Gwasanaeth a Delir yn gyfrifol am gefnogi a chynnal safonau ymddygiad uchel gan swyddogion, gan sicrhau goruchwyllo cydymffurfiaeth gyda'r protocol aelod-swyddog a gyda pholisïau eraill sy'n cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.
- 5.6.3 Mae'r Swyddog Monitro'n annog hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel yn y Cyngor, yn enwedig trwy ddarparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Safonau.
- 5.6.4 Mae Swyddog Adran 151 yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i sicrhau trefniadau priodol i weinyddu materion ariannol y Cyngor. Cefnogir y rôl hon gan y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol.

5.7 Rôl Rheolwyr

- 5.7.1 Mae rheolwyr ar bob lefel yn gyfrifol am gyfathrebu a gweithredu'r Polisi hwn yn eu maes gwaith. Maen nhw'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod eu gweithwyr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau personél a Rheoliadau Ariannol y Cyngor a bod gofynion pob un yn cael eu bodloni yn eu gweithgareddau busnes pob dydd. Yn ogystal, rhaid i'r rheolwyr wneud eu gweithwyr yn ymwybodol o ofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol trwy'r broses gyfarwyddo.
- 5.7.2 Disgwylir i'r rheolwyr greu amgylchedd lle teimla'u gweithwyr y gallant fynd atynt gydag unrhyw bryderon sydd ganddynt am eu hamheuon am anghysonderau.

5.8 Cyfrifoldebau'r Gweithwyr

- 5.8.1 Disgwylir i bob gweithiwr lynu wrth God Ymddygiad y Gweithwyr.
- 5.8.2 Yn ogystal, mae'r gweithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn glynu wrth y Rheoliadau Ariannol a'r gweithdrefnau rheoli mewnol.
- 5.8.3 Disgwylir i'r gweithwyr fod yn ymwybodol bob amser y gallai twyll, llygredigaeth a lladrad fodoli yn y gweithle ac y gallant rannu eu pryderon gyda rheolwyr. Os, am unrhyw reswm, y teimlant na allant siarad â'u rheolwr, rhaid iddynt gyfeirio'r mater at un o'r bobl wedi'u henwi isod:
- Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Prif Weithredwr neu Swyddog Monitro'r Cyngor, a fydd yn rhoi gwybod am y pryderon hynny i'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
 - Yn uniongyrchol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
 - Archwilydd allanol y Cyngor, a fydd yn cysylltu â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, yn dibynnu ar natur y pryder.
 - Cynrychiolwyr yr Undeb Llafur, a fydd yn rhoi gwybod am y pryderon hynny i'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

5.9 Gwrthdaro Buddiannau

- 5.9.1 Rhaid i aelodau etholedig a gweithwyr sicrhau eu bod yn osgoi sefyllfaoedd lle mae potensial am wrthdaro buddiannau. Gall y sefyllfaoedd hynny godi yn sgil allanoli gwasanaethau, tendro mewnol, cynllunio a materion tir ac ati. Bydd gwahanu rolau'n effeithiol yn sicrhau y gwelir bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail cyngor diduedd ac osgoi cwestiynau am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol.

510 Rôl Archwilio Mewnol

- 5.10.1 Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol Sir Ddinbych yn adolygu digonolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y dulliau rheoli mewnol yn systemau'r Cyngor yn annibynnol trwy ymgymryd â rhaglen waith gynhwysfawr sydd wedi'i thargedu at feysydd risg allweddol.
- 5.10.2 Adroddir unrhyw wendid mewn rheolaeth fewnol i reolwyr gydag argymhellion arfaethedig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw sicrhau y cymerir camau cywiro.
- 5.10.3 Mae'r adolygiad annibynnol o'r systemau a gweithrediad yr argymhellion cytûn yn cyfrannu at atal a darganfod twyll.

5.11 Rôl yr Archwilydd Allanol

- 5.11.1 Mae archwiliad allanol annibynnol yn ddull diogelu hanfodol o ran stiwardiaeth arian cyhoeddus. Cyflawnir hyn trwy adolygiadau penodol a ddyluniwyd i brofi (ymhlith pethau eraill) ddigonolrwydd systemau a threfniadau ariannol y Cyngor i atal a darganfod twyll. Nid swyddogaeth yr archwilwyr allanol yw atal twyll ac anghysonderau, ond mae cywirdeb arian cyhoeddus yn fater o bryder cyffredinol bob amser.

6. ATALIAETH

6.1. Camau Disgyblu

- 6.1.1 Mae lladrad, twyll a llwgrwobrwyo'n droseddau difrifol yn erbyn y Cyngor, a bydd gweithwyr yn wynebu camau disgyblu os oes tystiolaeth eu bod wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau hyn. Bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd yn ogystal â, neu'n hytrach nag achosion troseddol, yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, ond mewn ffordd gyson.
- 6.1.2 Bydd aelodau'n wynebau camau priodol os canfyddir eu bod wedi bod yn rhan o ladrad, twyll a llwgrwobrwyo yn erbyn y Cyngor. Bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd yn ogystal â, neu'n hytrach nag achosion troseddol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, ond mewn ffordd gyson. Os ydy'r mater yn torri Cod Ymddygiad yr Aelodau, bydd yn cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon hefyd.
- 6.1.3 Bydd unrhyw honiad o dwyll gan bobl y tu allan i'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at yr Heddlu er mwyn iddynt ymchwilio iddo.

6.2 Cyhoeddusrwydd

- 6.2.1 Bydd y Cyngor yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd am gyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwrth-dwyll yn y Cyngor i sicrhau bod canlyniadau unrhyw gamau a gymerir, gan gynnwys erlyniadau, yn cael eu hadrodd yn y wasg.
- 6.2.2 Ym mhob achos lle mae'r Cyngor wedi dioddef colled ariannol, bydd y Cyngor yn ceisio adennill y golled ac yn hysbysebu'r ffaith hwn.

7. DARGANFOD AC YMCHWILIO

- 7.1 Dylid darllen y rhan hon ar y cyd â'r Canllawiau ar gyfer Adrodd ar Amheuron o Dwyll a Llygredigaeth (Atodiad 1) a'r Polisi Erllyn (Atodiad 2).
- 7.2 Yn unol â 'Chod Ymddygiad' y Cyngor ar gyfer Gweithwyr a 'Rheoliadau Ariannol', rhaid i'r gweithwyr roi gwybod am unrhyw achosion o dwyll a amheuir i'r rheolwr priodol, a rhaid i'r gweithiwr neu'r rheolwr roi gwybod i'r Prif Archwilydd Mewnol.
- 7.3 Bydd y broses hon yn berthnasol i'r meysydd canlynol:
- Twyll neu lygredigaeth gan aelodau etholedig.
 - Twyll neu lygredigaeth fewnol.
 - Twyll neu lygredigaeth arall gan weithwyr y Cyngor.
 - Twyll gan weithwyr y contractwyr.
 - Twyll allanol.
- 7.4 Bwriad 'Polisi Chwythu'r Chwiban' y Cyngor yw annog a galluogi staff i fynegi pryderon difrifol. Caiff gweithwyr sy'n adrodd ar bryderon yn y ffordd hon rai hawliau dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, 1998.
- 7.5 Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth i benderfynu ar y math o ymchwiliad a chwrs yr ymchwiliad, a fydd yn cynnwys atgyfeiriadau at yr Heddlu lle bo angen. Bydd y Cyngor yn ceisio erlyn troseddwr a bydd yn cynnal gweithdrefnau disgyblu mewnol lle bo'n briodol. Wrth wneud hynny, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau nad yw achosion mewnol yn peryglu nac yn rhagfarnu'r achos troseddol.
- 7.6 Mae Archwilio Mewnol yn chwarae rôl bwysig wrth ddarganfod twyll. Wedi'i gynnwys yn ei gynlluniau gweithredol mae adolygiadau o ddulliau rheoli systemau gan gynnwys dulliau rheoli ariannol a phrofion twyll penodol, haparchwiliadau ac ymweliadau heb eu cyhoeddi. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dwyll wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Archwilio Mewnol.

8. ADENNILL A CHOSBAU

- 8.1 Lle bydd y Cyngor yn dynodi twyll, bydd yn:
- Adennill lle bo'n briodol **ac yn**
 - Eryl neu'n rhoi cosbau eraill ar waith i'r cyflawnwyr.
- 8.2 Cosbau yw camau a gymerir yn erbyn unigolion neu sefydliadau er mwyn lleihau'r risg o dwyll, llygredigaeth neu llwgrwobrwyo rhag digwydd. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith mewn modd cynhwysfawr, cyson a chymesur gan ystyried yr holl gosbau posibl – disgyblu, sifil a throseddol.
- 8.3 Lle dynodir twyll gan weithwyr, bydd camau'n cael eu cymryd yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor. Gallai hyn fod yn ychwanegol at unrhyw gamau adennill sifil neu gosbau troseddol.
- 8.4 Nod y Cyngor yw bod yn effeithiol wrth adennill unrhyw golledion a briodolir i dwyll gan ddefnyddio, fel y bo'n briodol, cyfraith droseddol ac/neu sifil.
- Hyfforddiant
- 8.5 Mae llwyddiant parhaus y Strategaeth yn gofyn i'r holl staff fod yn ymwybodol o faterion twyll gan gynnwys llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Bydd proses gynefino'r Cyngor yn atgyfnerthu hyn ynghyd â hyfforddiant parhaus a ddynodir trwy'r broses Arfarnu Perfformiad.
- 8.6 Bydd staff sydd ynghlwm â sefydlu neu fonitro systemau rheoli mewnol, e.e. Rheoliadau Ariannol, yn cael hyfforddiant penodol i sicrhau bod eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n cael eu hamlygu a'u hatgyfnerthu'n gyson.
- 8.7 Bydd staff Archwilio Mewnol yn cael hyfforddiant er mwyn cydymffurfio â'u safonau proffesiynol. Bydd hyn yn gwneud y mwyaf o allu'r Cyngor i atal, darganfod ac ymchwilio i dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo.
- 8.8 Bydd camau disgyblu'n cael eu hystyried yn erbyn unrhyw weithiwr sy'n anwybyddu'r hyfforddiant hynny'n fwriadol ni waeth a ydyw'n arwain at dwyll gwirioneddol.

9. GWEITHREDU'R STRATEGAETH

9. GWEITHREDU

9.1 Er mwyn cynorthwyo wrth dargedu mesurau ac adnoddau gwrth-dwyll yn effeithiol, bydd asesiad risg blynyddol yn cael ei wneud o dueddiad y Cyngor i fod yn destun twyll. Bydd hwn yn defnyddio canllawiau sy'n bodoli CIPFA a bydd yn

- i. dynodi unrhyw feysydd diamddiffyn; y mathau o dwyll yn y meysydd hynny a'r symiau potensial y gellir eu colli;
- ii. ystyried effaith twyll ar allu'r Cyngor i fodloni ei amcanion a'i gyfrifoldebau;
- iii. llywio'r adnoddau sy'n ofynnol i wrthwynebu twyll yn effeithiol;
- iv. penderfynu ar y dulliau a osodwyd yn niwygiadau'r dyfodol i'r Strategaeth Gwrth-Dwyll; a
- v. chael eu cynnwys fel rhan o fframwaith rheoli risg y Cyngor.

9.2 Bydd yr Archwiliad Mewnol yn ymgymryd ag asesiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau gwrth-dwyll presennol yn erbyn:

- i. Unrhyw liniaru a nodwyd yn yr asesiad risg a amlinellir yn 6.1;
- ii. Y rolau a'r cyfrifoldebau a osodwyd yn Atodiad 4 y Strategaeth hon;
- iii. Fframwaith polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor;
- iv. Canllawiau a ddarperir gan CIPFA, fel 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth' a chanllawiau proffesiynol a rheoleiddiol eraill.

9.3 Bydd Archwilio Mewnol yn adrodd ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risgiau gwrth-dwyll.

Ymwybyddiaeth

9.4 Bydd y Cyngor yn cynnal ymwybyddiaeth ddiweddar o'r mathau o dwyll y gallai gael eu hamlygu iddynt, yn enwedig o gofio'r sefyllfa ariannol barhaus a dyfeisgarwch darpar dwyllwyr. Bydd yn adolygu datblygiadau cenedlaethol ac yn cryfhau systemau a gweithdrefnau yn unol â hynny gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth allweddol gan amryw gyrrff cenedlaethol, cyhoeddiadau a fframweithiau:

10. CASGLIAD

- 10.1. Mae'r Cyngor wedi ymfalchïo erioed ar osod a chynnal safonau uchel a diwylliant o ddiwylledd, gydag egwyddorion craidd sef undod, balchder, parch a chywirdeb. Mae'r strategaeth hon yn cefnogi'n llawn ddymuniad y Cyngor i gynnal sefydliad gonest, rhydd o dwyll.
- 10.2. Mae gan y Cyngor rwydwaith o systemau a gweithdrefnau ar waith i'w gynorthwyo wrth ddelio â thwyll pan fydd yn digwydd. Penderfynir y bydd y trefniadau hyn yn cadw i fyny gydag unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol mewn technegau ataliol ac olrheiniol mewn perthynas â gweithgareddau twyllodrus neu lygredig a allai effeithio ar ei weithrediad.
- 10.3. Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o'r holl systemau a gweithdrefnau hyn trwy ei wasanaeth Archwilio Mewnol.
- 10.4. Bydd y datganiad polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gydag uchafswm o dair blynedd rhwng pob adolygiad a fydd yn ystyried datblygiadau deddfwriaethol, proffesiynol a thechnolegol newydd.

ATODIAD 1

CANLLAWIAU AR ADRODD AM AMHEUON O DWYLL

Beth Ydyn Ni Eisiau Gwybod Amdano?

1. Gallai gweithredoedd twyllodrus gynnwys:-

- **Materion Systemau** - lle bodola proses/system sy'n dueddol o gael ei cham-drin gan weithwyr neu aelodau'r cyhoedd.
- **Materion Ariannol** – lle mae unigolion neu gwmnïau wedi cael arian yn dwyllodrus gan y Cyngor.
- **Materion Cyfarpar** - lle defnyddir offer y Cyngor yn amhriodol am resymau personol.
- **Materion Adnoddau** – lle camddefnyddir adnoddau.
- **Materion Eraill** - lle cynhaliwyd gweithgareddau gan swyddogion y Cyngor a allai fod yn anghyfreithlon, sy'n torri Rheoliadau Ariannol y Cyngor neu ei bolisiâu, sy'n syrthio islaw'r safonau neu'r arferion a sefydlwyd, neu'n arwain at ymddygiad amhriodol.

2 Mae'n amlwg nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond mae'n arwydd o'r mathau o dwyll y gellid dod ar eu traws. Os oes unrhyw amheuaeth am ddifrifoldeb pryder, gall gweithiwr neu aelod o'r cyhoedd gael cyngor ac arweiniad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar 01824 708093.

3 Fel rheol, bydd pryderon neu honiadau sy'n syrthio o fewn cwmpas polisiâu neu weithdrefnau presennol eraill (e.e. materion amddiffyn plant neu wahaniaethu) yn cael eu cyfeirio i'w hystyried dan y gweithdrefnau hynny.

Dulliau Diogelu

4 **Aflonyddwch neu Erledigaeth** – Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y penderfyniad i roi gwybod am bryder fod yn un anodd ei wneud, oherwydd yr ofn o ddial gan y sawl sy'n gyfrifol am y camymddygiad honedig. Ni fydd y Cyngor yn goddef aflonyddwch nac erledigaeth a bydd yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r rhai sy'n mynegi pryder yn ddiffuant.

5 **Cyfrinachedd** – Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i amddiffyn enw unigolyn pan fydd ef neu hi'n mynegi pryder ac yn dymuno bod yn ddiennw. Fodd bynnag, rhaid gwerthfawrogi y gallai'r broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth, a hwyrach y bydd angen datganiad gan yr unigolyn fel rhan o'r dystiolaeth.

6 Honiadau Dienw – Mae'r Polisi hwn yn annog unigolion i roi eu henwau wrth honiadau. Mae pryderon a fynegir yn ddiennw'n llawer llai pwerus, ond byddant yn cael eu hystyried yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Wrth gyflawni'r disgrisiwn hwn, byddai'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:-

- Difrifoldeb y mater a godwyd.
- Cywirdeb y pryder.
- Y tebygolrwydd y bydd yr honiad yn cael ei gadarnhau gan ffynonellau priodoladwy.

7 Honiadau Celwyddog – Os bydd honiad yn cael ei wneud yn ddiffuant, ond nad yw'n cael ei gadarnhau gan yr ymchwiliad, ni fydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn y sawl a'i cyflwynodd. Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn gwneud honiadau maleisus neu annifyr, gellir ystyried cymryd camau yn erbyn yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad hwnnw.

Beth Ddylai Gweithwyr ei Wneud Os Ydyn nhw'n Amau Twyll?

8 Yn aml iawn, gweithwyr yw'r rhai cyntaf i sylweddoli y gallai fod rhywbeth difrifol o'i le mewn sefydliad; fodd bynnag, hwyrach nad ydynt yn dymuno mynegi eu pryderon oherwydd gallent deimlo o ddweud, byddent yn dangos rhywfaint o ddiffyg teyrngarwch i'w cydweithwyr neu hyd yn oed i'r Cyngor. Gallent ofni aflonyddwch neu erledigaeth hyd yn oed. Dan y fath amgylchiadau, efallai y byddai'n haws anwybyddu'r pryder yn hytrach na chodi mater a allai fod ond yn amheuaeth o gamymddwyn.

9 Bwriad 'Polisi Chwythu'r Chwiban' y Cyngor yw annog a galluogi staff i fynegi pryderon difrifol yn y Cyngor yn hytrach nag esgeuluso problem neu 'chwythu'r chwiban' i'r cyfryngau neu i gyrff allanol eraill. Mae copi llawn o 'Bolisi Chwythu'r Chwiban' ar gael ar fewnwyd y Cyngor.

10 Yn ei hanfod, dylai gweithwyr fynd at y Cyfarwyddwr Corfforaethol neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, a fydd, o gadarnhau'r hawliad, yn rhoi gwybod i'r Prif Archwilydd Mewnol. Yna, bydd natur y gŵyn yn penderfynu ar gamau gweithredu'r Cyngor.

11 Gellir cysylltu ag Archwilio Mewnol ar 01824 706936, trwy e-bost (lisa.lovegrove@denbighshire.gov.uk), neu drwy ysgrifennu at y Gwella Busnes a Moderneiddio, Caledfryn, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Ffair, Dinbych LL16 3RJ.

12 I grynhoi, os dewch yn ymwybodol o broblem:

- **GWNEWCH** – nodyn o'ch pryderon yn syth, manylion unrhyw sgysiau a glywsoch, neu ddogfennau a gwelsoch a nodi'r dyddiad, amser, ac enwau'r bobl dan sylw.
- **PASIWCH** – unrhyw ddogfennau a ddaw i'ch meddiant yn syth i'r Archwilio Mewnol.

- **GWEITHREDWCH** - yn brydlon, oherwydd gallai oedi arwain at golled ariannol pellach neu golli tystiolaeth.
- **PEIDIWCH** - ag anwybyddu'r pryderon neu fod ag ofn eu codi. Ni fyddwch yn dioddef edliw gan eich cyflogwr o ganlyniad i leisio amheuaeth resymol oedd gennych.
- **PEIDIWCH** – â mynd at unigolion eich hun na chyfleu eich amheuon i aelodau staff eraill, ac eithrio'r rheiny â'r awdurdod i ddelio â'r mater.
- **PEIDIWCH** – â cheisio ymchwilio i'r mater eich hun.

Beth Ddylai Aelodau'r Cyhoedd ei Wneud os Ydyn Nhw'n Amau Twyll?

13 Mae'r Cyngor wrthi'n annog aelodau'r cyhoedd sy'n amau twyll i gysylltu ag Archwilio Mewnol yn y lle cyntaf.

14 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu'n annibynnol ar holl wasanaethau eraill y Cyngor, ac mae ei waith yn cynnwys meithrin gweithdrefnau gyda'r nodau canlynol:-

- Datblygu diwylliant gwrth-dwyll.
- Atal, darganfod ac ymchwilio i dwyll.
- Sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn y sawl sy'n cyflawni, neu'n ceisio cyflawni rhyw fath o dwyll.

15 Mae'r camau gweithredu posibl y gall y Cyngor eu cymryd wedi'u hamlinellu yn yr Adran ganlynol.

Sut bydd y Cyngor yn delio â Honiadau o Dwyll?

16 O ran materion a godwyd gan weithwyr neu aelodau'r cyhoeddus, bydd y camau a gymerir yn y Cyngor yn dibynnu ar natur y pryder. Gallai'r materion a godwyd:

- Gael eu hymchwilio'n fewnol.
- Gael eu cyfeirio at yr Heddlu.

17 Cyn pen deng niwrnod gwaith o roi gwybod am bryder, bydd yr achwynydd yn cael llythyr sy'n:

- Cydnabod bod hysbysiad o'r pryder wedi dod i law.
- Yn dynodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu delio â'r mater, yn amodol ar gyfyngiadau dan ddeddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

- Rhoi amcangyfrif o ba mor hir fydd y Cyngor yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol.

18 Mae'r Cyngor yn ymroi hefyd i hyfforddi a datblygu'r holl weithwyr sydd, neu a allai fod, ynghlwm mewn ymchwiliadau i achosion honedig neu wirioneddol o dwyll. Felly, bydd y Cyngor yn dynodi ac yn trefnu darparu hyfforddiant priodol fel y bo'n ystyried yn angenrheidiol.

Dulliau Amgen i Symud Cwyn yn ei Blaen

19 Os bydd aelod o'r cyhoedd neu weithiwr yn teimlo ei bod hi'n iawn mynd â'r mater y tu allan i'r prosesau hyn, mae'r canlynol yn ffyrdd ymlaen posibl:-

- **Y Cynghorydd Lleol** – mae manylion cyswllt ar gael o wefan neu swyddfeydd y Cyngor.
- **Archwilydd allanol y Cyngor** – Hwn yw'r sefydliad a benodir i graffu materion ariannol a pherfformiad cyffredinol y Cyngor. Yn ôl y gyfraith, rhaid iddynt fod yn gwbl annibynnol ar y Cyngor.
- **Undeb Llafur** – Gallai'r gweithwyr wahodd eu Hundeb Llafur i godi mater ar eu rhan.
- **Yr Heddlu** – Gellir rhoi gwybod am amheuan o dwyll yn uniongyrchol i'r Heddlu
- **Ombwdsmon y Llywodraeth Leol** - Rhywun annibynnol, a benodir gan y llywodraeth yw'r Ombwdsmon, er mwyn ymchwilio i gwynion yn erbyn awdurdodau lleol a delio â nhw.
- **Protect (Public Concern at Work yn flaenorol)** - Sefydliad elusennol yw hwn sy'n darparu help cyfreithiol rhad ac am ddim a chwbl gyfrinachol i unrhyw un sydd â phryderon am gamymddygiad honedig yr ystyriant ei fod yn fygythiad i fudd y cyhoedd. Y wefan genedlaethol yw <http://www.pcaw.co.uk>. Gellir cysylltu â'r sefydliad hefyd ar ei linell gymorth genedlaethol ymroddedig ar 020-3117-2520, neu whistle@protect-advice.org.uk
- **Swyddfa Archwilio Cymru (WAO)** –Gellir cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru trwy ysgrifennu at **Swyddog** PIDA, Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. E-bost whistleblowing@audit.uk. Ffôn 029-2032-0522

ATODIAD 2

CYNLLUN YMATEB I DWYLL

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i atal, rhwystro, darganfod ac ymchwilio i bob math o dwyll a llygredigaeth fel y nodir yn y Strategaeth er Atal a Darganfod Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredigaeth.
- 1.2 Bydd cyfrifoldeb ar bob gweithiwr ac Aelod, ym mhob agwedd ar waith y Cyngor, i arwain drwy esiampl o ran sicrhau gwrthwynebiad i dwyll a llygredigaeth, cadw at reolau a rheoliadau'r Cyngor a sicrhau bod pob gweithdrefn ac arferiad yn gwbl ddi-edliw.
- 1.3 Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd pob unigolyn a sefydliad y bydd yn ymdrin â nhw mewn unrhyw gyd-destun, yn ymddwyn tuag at y Cyngor gyda gonestrwydd a heb fwriad neu weithredoedd yn ymwneud â thwyll neu lwgrwobrwyo.
- 1.4 Mae staff y Cyngor, aelodau'r cyhoedd a chyrrff allanol yn chwarae rhan bwysig yn yr ymdrech i gynnal y safonau a dylid eu hannog yn gryf i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y materion hyn sy'n effeithio ar weithgareddau'r Cyngor drwy ddefnyddio polisi Chwythu'r Chwiban neu weithdrefn gwynion y Cyngor.
- 1.5 Bydd y Cyngor yn ymdrin yn gadarn ag unrhyw gamarfer ac yn delio'n ddi-oed ac yn drylwyr ag unrhyw un sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r Cyngor neu sy'n ymwneud ag arferion llwgr.
- 1.6 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Disgyblu'r Cyngor.

2 DIFFINIADAU

- 2.1 I ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniad o weithred anonest neu dwyllodrus yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r isod:

“Bydd unigolyn yn euog o dwyll os bydd

- 1) a) yn gwneud cynrychioliad ffug yn anonest
- b) yn peidio yn anonest â datgelu i rywun arall wybodaeth y mae arno ddyletswydd gyfreithiol i'w datgelu
- c) mewn swydd lle disgwylir iddo ddiogelu neu beidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n mynd yn groes i fuddiannau ariannol unigolyn arall ond yn camddefnyddio'r swydd honno'n anonest

ac

- 2) yn bwriadu gwneud elw iddo'i hun neu rywun arall neu'n achosi colled i rywun arall neu'n achosi i rywun arall fod yn agored i risg"

2.2 Mae gweithred anonest neu dwyllodrus yn gallu bod, ond nid yw'n gyfyngedig i, weithred neu weithgaredd sydd yn anfoesegol, yn amhriodol neu'n anghyfreithlon, megis:

- (a) Lladrad ased/au gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i arian, eiddo cyffyrddadwy, eiddo deallusol ayyb;
- (b) Chamddefnyddio, dinistrio, symud neu guddio eiddo;
- (c) Gwneud hawliadau ffug ac/neu gamliwio ffeithiau;
- (d) Newid neu ffugio dogfennau papur neu electronig, gan gynnwys dinistrio dogfennau papur neu electronig yn amhriodol;
- (e) Defnydd amhriodol o systemau cyfrifiadurol gan gynnwys hacio a dwyn meddalwedd;
- (f) Embeslad;
- (g) Llwgrwobrwyfaeth neu lygredigaeth o unrhyw fath;
- (h) Gwrthdaro buddiannau anghyfreithlon neu heb i ddatgan;
- (i) Defnydd diawdurdod o eiddo, offer, deunyddiau neu gofnodion y Cyngor;
- (j) Troseddau yn ymwneud â chamddefnyddio systemau cyfrifiadurol y Cyngor.

2.3 Er y gallai gweithred anonest neu dwyllodrus arwain at achos sifil neu droseddol, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio dyfarniad corff troseddol neu sifil fel sail dros benderfynu a yw gweithred yn anonest neu'n dwyllodrus, ac nid oes raid i weithred godi i lefel trosedd neu dor-cyfraith sifil i gael ei hystyried yn groes i Bolisi Disgyblu'r Cyngor.

Llwgrwobrwyfaeth

2.4 Dan Ddeddf Llwgrwobrwyfaeth 2010 mae pedwar trosedd allweddol

- Llwgrwobrwyfaeth rhywun arall – bydd unigolyn yn cyflawni trosedd os bydd yn cynnig, yn addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais o fath arall i unigolyn arall, yn uniongyrchol neu drwy gyfryngwr gan naill ai:
 - a) fwriadu y bydd y fantais honno yn cymell unigolyn i gyflawni Swyddogaeth yn amhriodol neu i wobrwyo rhywun am wneud hynny (pa un a yw hwnnw/honno'r un person ag y cynigiwyd y fantais iddynt) neu
 - b) wybod neu goelio y byddai derbyn y fantais ynddo'i hun yn berfformiad Swyddogaeth amhriodol

- Unigolyn yn derbyn llwgrwobr - bydd unigolyn yn cyflawni'r trosedd hwn drwy ofyn am, gytuno i neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall, yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti, er ei fudd ef/hi ei hun neu fudd rhywun arall a,
 - a) bod yr unigolyn hwnnw yn bwriadu, fel canlyniad, y bydd Swyddogaeth yn cael ei pherfformio'n amhriodol neu
 - b) bod Swyddogaeth yn cael ei pherfformio'n amhriodol (boed fel gwobr am, gan ddisgwyl neu o ganlyniad i'r cais, cytundeb neu dderbyniad).

Gall y cais, y cytundeb neu'r derbyniad ei hun fod yn berfformiad Swyddogaeth amhriodol.

- Llwgrwobrwyo Swyddog Cyhoeddus Tramor- cyflawnir y trosedd hwn os bydd rhywun yn rhoi neu'n cynnig mantais ariannol neu fantais o fath arall i Swyddog Cyhoeddus Tramor gyda'r bwriad o ddylanwadu arno/arni er mwyn cael neu gadw busnes, lle nad oedd caniatâd na gofyniad yn ôl y gyfraith ysgrifenedig i'r Swyddog Cyhoeddus Tramor gael ei ddylanwadu arno yn y fath fodd.
- Methu atal Llwgrwobrwyfaeth - bydd cwmni yn "gwbl atebol" am unrhyw lwgrwobr a delir gan unrhyw unigolyn sy'n cyflawni gwasanaethau ar ei ran, oni bai fod y sefydliad yn profi fod gweithdrefnau gwrth lwgrwobrwyfaeth digonol wedi'u sefydlu.

2.5 Mae cosbau troseddol ynghlwm â'r troseddau hyn i unigolion a sefydliadau. I unigolion, y gosb fyddai dedfryd o uchafswm o ddeng mlynedd o garchar a/neu ddirwy amhenodol; i sefydliadau, y gosb fyddai dirwy amhenodol.

3 YMCHWILIO I WEITHREDOEDD ANONEST POSIBL NEU WEITHGAREDD TWYLLODRUS GAN GYNNWYS LLYGREDIGAETH NEU LWGRWOBRWYAETH

- 3.1 Bwriad y Cyngor yw ymchwilio'n llawn i unrhyw achos posibl o dwyll, camddefnydd neu afreoleidd-dra arall tebyg.
- 3.2 Bydd unrhyw un sy'n gwneud honiadau ffug yn fwriadol yn desun camau disgyblu.
- 3.3 Dylai pobl sy'n rhoi gwybod am weithredoedd anonest neu dwyllodrus posibl, ble bynnag bosibl, osgoi gwrthdaro gyda'r sawl sydd dan amheuaeth ac ni ddylent drafod y mater gydag unrhyw un heblaw eu rheolwr llinell a'r rhai hynny sy'n cynnal yr ymchwiliad i'r honiadau.
- 3.4 Yn ôl Rheoliadau Ariannol y Cyngor mae'n ofynnol i Benaethiaid Gwasanaethau roi gwybod i Bennaeth Archwilio Mewnol am unrhyw afreolaidd-dra posibl. Nid yw hyn fodd bynnag yn rhwystro Penaethiaid Gwasanaethau rhag cymryd camau priodol ar unwaith os bydd angen.
- 3.5 Dylai unrhyw aelod o'r tîm ymchwilio neu swyddog sy'n debygol o ymdrin ag unrhyw benderfyniad ynghylch camau disgyblu sy'n bersonol gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r sawl sydd dan amheuaeth ddatgan cysylltiad â pheidio â chymryd rhan yn y gweithdrefnau dilynol.

- 3.6 Bydd pawb sy'n rhan o'r ymchwiliad i'r twyll yn cadw manylion a chanlyniadau'r ymchwiliad yn gyfrinachol bob amser.
- 3.7 Bydd pob mater lle ystyrir fod ymchwiliad arbennig yn angenrheidiol yn cael eu cofnodi i ddibenion gwybodaeth reoli ac ystadegol ar gyfer gwneud adroddiadau ynghylch twyll a materion cysylltiedig i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3.8 Unwaith y bydd adroddiad ynghylch twyll posibl wedi'i wneud, bydd staff rheoli ac/neu archwilio mewnol yn cymryd camau di-oed i rwystro cofnodion perthnasol, gan gynnwys data ar gyfrifiaduron, rhag cael eu dwyn, eu newid neu eu dinistrio. Gall y camau hyn gynnwys, ond ni fyddant yn gyfyngedig i, symud y cofnodion a'u rhoi mewn lleoliad diogel, cyfyngu mynediad i'r man ble cedwir y cofnodion ac atal yr unigolyn/unigolion sydd dan amheuaeth o gyflawni'r twyll rhag cael mynediad i gofnodion (gan gynnwys rhai electronig).
- 3.9 Bydd y rhai hynny sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion posibl o dwyll, megis rheolwyr dynodedig neu'r Archwilwyr Mewnol, yn cael mynediad i'r holl eiddo sy'n berchen i'r Cyngor gan gynnwys cyfrifiaduron, cofnodion, ystafelloedd a dodrefn.
- 3.10 Yn dibynnu ar natur a maint disgwylidig yr honiadau, bydd yr Archwilwyr Mewnol fel arfer yn gweithio'n agos â rheolwyr ac asiantaethau eraill, megis yr heddlu, er mwyn sicrhau bod yr honiadau a'r dystiolaeth yn cael eu hymchwilio â'u hadrodd yn eu cylch yn gywir.
- 3.11 Yn dilyn adolygiad cychwynnol a phenderfyniad fod y twyll honedig yn gofyn am ragor o ymchwilio, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddyfeisio a log digwyddiadau'n cael ei gadw o gynnydd yr ymchwiliad.
- 3.12 Bydd unrhyw gais am wylidwriaeth yn destun Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
- 3.13 Bydd y Cyngor yn parhau i wneud defnydd o gydweddu data i ddatgelu twyll ac yn gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa'r Cabinet er mwyn gwella ansawdd a maint y cydweddu fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol. Os bydd ymchwiliadau'n ymwneud â staff y Cyngor neu Aelodau, bydd yn ofynnol rhoi blaenoriaeth i sicrhau fod achosion yn cael eu hymchwilio iddynt yn ddi-oed ac yn drylwyr.
- 3.14 Mewn unrhyw achosion lle bydd ymchwiliad yn amlygu gweithgaredd troseddol posibl, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gyfeirio at sylw Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd er mwyn cael eu barn ar y dystiolaeth
- 3.15 Os bydd sail resymol dros gredu bod trosedd wedi'i gyflawni bydd y mater yn cael ei gyfeirio at sylw'r heddlu - penderfyniad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd fydd hyn.

- 3.16 Lle bydd ymchwiliadau'n ymwneud â systemau cyfrifiadurol, gan gynnwys y Rhyngwrwd/gwasanaethau E-bost sy'n ymwneud â deunyddiau pornograffig neu ddeunyddiau amhriodol eraill, bydd yn rhaid cyfeirio at ganllawiau'r Cyngor ar atafaelu ac ymchwilio i dystiolaeth gyfrifiadurol, sy'n seiliedig ar ganllawiau'r Heddlu a'r Llywodraeth. Mae'r canllawiau'n pennu mai dim ond arbenigwr mewn amgylchedd reoledig gaiff archwilio cyfrifiadur. Dylid diffodd yr offer yn y cyflenwad pŵer a rhwystro mynediad hyd nes y gellir atgyfeirio'r mater i sylw'r Heddlu.
- 3.17 Unwaith y bydd ymchwiliad yr Archwilwyr Mewnol ar ben, bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi a'u trosglwyddo'n ddi-oed ar lafar ac/neu yn ysgrifenedig i Bennaeth Cyllid y Cyngor, a hefyd ar ffurf gryno i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor a fydd yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg mewn perthynas ag atal twyll.
- 3.18 Ar ddiwedd yr ymchwiliad bydd unrhyw ddogfennau neu gofnodion, gan gynnwys cofnodion unrhyw gamau cyfreithiol neu adnoddau dynol a gymerwyd, yn cael eu dychwelyd gan yr Archwilwyr Mewnol i'r adran berthnasol.

4 COSBAU

- 4.1 Bydd staff y canfyddir eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithredoedd anonest neu dwyllodrus yn ystod amser gwaith neu yn eu hamser eu hunain yn destun camau gweithredu ac o bosibl erlyniad troseddol neu weithred sifil. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr neu Aelodau a fu'n destun ymchwiliad a thwyll wedi'i ddarganfod yn dilyn ymarfer cydweddu data. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cael ei hysbysu ynghylch y trosedd a bydd disgwyl iddynt gymryd camau di-oed i roi achos disgyblu ar waith ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd.
- 4.2 Bydd staff y canfyddir eu bod yn gwybod am weithredoedd anonest neu dwyllodrus ond na wnaethant, o fwriad, roi gwybod am hynny, yn destun camau disgyblu yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Heddlu.
- 4.3 Mewn perthynas ag unigolyn y canfyddir eu bod wedi cyflawni twyll budd-dal, bydd cosbau'n cael eu gweithredu'n unol â'r Polisi Cosbau Budd-dal (Atodiad 3).
- 4.4 Dymuna'r Cyngor godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth hon – ei phwrpas a'i chynnwys – ymysg yr Aelodau, staff a phob unigolyn a chorff y mae'n ymgysylltu â nhw.
- 4.5 Bydd Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor yn cael eu defnyddio os bydd canlyniad ymchwiliad yn amlygu ymddygiad amhriodol ar ran gweithwyr. Nid fydd y gweithdrefnau disgyblu'n seiliedig ar yr egwyddor o 'fyrdrwn prawf' fel mewn achos troseddol ond yn hytrach ar 'yr hyn sy'n debygol'.

5 POLISI ERLYN CYFFREDINOL

- 5.1 Ym mhob achos bydd y canlynol yn cael ei ystyried wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio.

Pwnc Perthnasol	Pwyntiau i'w Hystyried
Safon y dystiolaeth sydd ar gael	A oes digon o dystiolaeth i fodloni Llys? A yw'r holl dystiolaeth yn dderbyniadwy? A gafwyd y dystiolaeth mewn modd priodol? A ellid defnyddio'r Ddeddf Elw Troseddau?
Graddau'r Troseddaeth	Sut y cyflawnwyd y twyll? A oedd y twyll o natur 'manteisio ar gyfle'? Faint o gynllunio oedd cyn cyflawni'r twyll? Am faint aeth hyn yn ei flaen?
Troseddwr Di-baid	Ydyn nhw wedi cyflawni twyll o'r blaen? Ydyn nhw wedi cael eu cosbi o'r blaen?
Swydd Gyfrifol	Ydy'r drwgweithredwr yn aelod o staff y cyngor, cynrychiolydd neu gontractwr? Ydyn nhw'n Aelod o'r cyngor?
Hyd y twyll	Am faint aeth y twyll yn ei flaen?
Colli Arian Cyhoeddus	Byddai'n annhebygol erlyn am dwyll gwerth llai na £500 ond ni ddylid diystyru hynny'n llwyr. Rhaid ystyried yr holl faterion eraill yn y rhestr hon
Datgeliad Gwirfoddol	A gyfaddefwyd y twyll cyn yr ymchwiliad?
Trosedd cyffredin	Ydy'r trosedd yn rhan o dueddiad lleol? Efallai nad yw'r trosedd yn arbennig o ddifrifol ond gallai fod yn digwydd yn aml mewn ardal benodol
Ffactorau Meddygol/Cymdeithasol	A oes unrhyw amgylchiadau lliniarol? A oes unrhyw anableddau meddyliol neu gorfforol? A yw'r drwgweithredwr yn ffit i fynd i'r llys? Ni ddylai ffactorau cymdeithasol/meddygol olygu yn awtomatig na ellir erlyn, ond dylid eu hystyried.
Buddiant Cyhoeddus	Pa fuddiant sydd i'r Cyngor neu i'r cyhoedd?

6. UNIONI AC ADFER

- 6.1 Gellir diffinio 'unioni' fel adfer neu geisio adfer yr asedau a gollwyd. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw fath o iawndal ariannol am y twyll. Os digwyddodd y golled drwy weithgaredd twyllodrus bydd y Cyngor yn cymryd pob cam i gael yr eiddo/arian yn ôl yn ddi-oed.

- 6.2 Ble bynnag bosibl byddai disgwyl i'r cyngor ddilyn achosion drwodd i'r pwynt hwn. Tra bod y Cyngor yn ceisio symud materion ymlaen at gosbau, rhaid hefyd ceisio adfer unrhyw golledion. Nid yw'r broses adfer yn rhan o gylch gorchwyl yr Archwilwyr Mewnol ond rhoddir cyfarwyddyd ac arweiniad ble bynnag bosibl er mwyn hwyluso adferiad.

Enghreifftiau o Unioni ac Adfer

Math o Achos	Dull Unioni/Adfer
Tai	Cychwyn camau i adfer yr eiddo Tynnu oddi ar y rhestr tai Canslo Llety Dros dro Gwahardd y Llety rhag Hawl i Brynu (HiB) Siwio am golled rhent neu ddisgownt HiB/symudol
Budd-dal	Olrhain y cyfeiriad er mwyn cael y gordaliad yn ôl gan y Landlord neu'r Tenant
Ceiswyr Lloches	Olrhain y cyfeiriad er mwyn cael y gordaliad yn ôl gan y Landlord neu'r Tenant
Mewnol a Chyffredinol	Prisiau ar eiddo Trydydd Parti (Garnisiad) Atafael enillion Gwaharddebau rhewi Hawliadau yswiriant (gwarant ffyddlondeb) Achosion cyfreithiol i adfer dyledion Gorchmynion Atafaelu lawndal Gorchmynion Adferiad Deddf Elw Troseddau

7 CYFRINACHEDD

- 7.1 Bydd manylion unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â staff neu Aelodau yn gwbl gyfrinachol ac felly ni ddylid eu trafod na'u trosglwyddo i unrhyw un ar wahân i gynrychiolwyr perthnasol y rheolwyr a'r tîm ymchwilio enwebedig.
- 7.2 Os daw'r cyfryngau'n ymwybodol o archwiliad awdit neu reoli arall ac yn gwneud ceisiadau i gysylltu ag aelodau'r tîm ymchwilio neu unrhyw aelodau eraill o staff, ni ddylid trafod manylion y twyll honedig na'r ymchwiliad. Bydd pob mater cysylltiedig â datganiadau i'r wasg yn cael eu delio â nhw drwy Swyddfa Cyfathrebiadau'r Cyngor.

8 **CYHOEDDUSRWYDD**

- 8.1 Mae cyhoeddusrwydd yn arf pwysig mewn atal twyll gan ei fod yn amlygu gweithgareddau Atal Twyll y Cyngor a gall felly atal unigolion rhag troseddu.
- 8.2 Wedi ystyried polisiau priodol y cyngor mewn perthynas â chyhoeddusrwydd, bydd y Cyngor yn cyhoeddi pob achos a erlynwyd yn llwyddiannus.

9. **CYDYMFFURFIAD**

- 9.1 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r Polisi hwn o fewn eu gwasanaethau.

ATODIAD 3

POLISI COSBAU BUDD-DAL

POLISI COSBAU AM DWYLL BUDD-DALIADAU

1 PWRPAS AC AMCANION

- 1.1 Nod y ddogfen hon yw nodi polisi'r Cyngor mewn perthynas â chosbi unigolion a sefydliadau y tu allan i'r cyngor sy'n cyflawni twyll budd-dal yn ei erbyn.
- 1.2. Dylid nodi nad yw'r Cyngor bellach yn gyfrifol am ymchwilio i dwyll budd-dal - cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) yw hyn. Bydd y Cyngor yn cyfeirio achosion sydd o bosibl angen ymchwilio iddynt i'r AGP ac yn rhoi tystiolaeth iddynt yn ôl yr angen er mwyn galluogi ymchwiliad i symud yn ei flaen. Mewn achosion lle bydd cosbau'n cael eu pennu i gwsmeriaid am ordaliadau Budd-dal Tai a Threth y Cyngor, bydd rhaid i'r Cyngor gymeradwyo hynny.
- 1.3 Mewn cydnabyddiaeth o nodau strategol y Cyngor a'i statws fel stiward cyfrifol dros gronfeydd cyhoeddus, a hefyd yng ngoleuni pryderon y cyhoedd ynglŷn â thwyll, yn enwedig y broblem twyll budd-dal genedlaethol, nod y Polisi hwn yw galluogi atal a darganfod twyll yn effeithiol. Ei amcanion penodol yw:
 - Sicrhau cosbau effeithiol am dwyll
 - Cynorthwyo i ddethol y gosb fwyaf briodol

2 CWMPAS A DIFFINIADAU

- 2.1 I ddibenion y Polisi hwn, mae twyll yn golygu: 'afluniad bwriadol datganiadau neu gofnodion ariannol gan unrhyw unigolyn er mwyn cuddio asedau neu er elw arall'.
- 2.2 Mae'r ystyr hwn hefyd yn cynnwys gwneud elw ariannol, neu ymgais i wneud elw ariannol, drwy yn fwriadol beidio â rhoi gwybod am newidiadau i wybodaeth a gyflwynwyd eisoes.
- 2.3 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i dwyll Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor yn erbyn y Cyngor gan bobl neu sefydliadau allanol. Gallai'r rhain gynnwys, ymysg eraill:
 - Hawlwyr Budd-dal
 - Landlordiaid
 - Asiantau
 - Partneriaid Hawlwyr

2.4 Mae'r Polisi hwn yn nodi:

- y sancsiynau y gellir eu defnyddio
- rheolau cyhoedduswydd ac adrodd
- sut i gadw'r polisi'n amserol ac yn berthnasol

3 Y SANCSIYNAU SYDD AR GAEL

Mae pedwar math o sancsiwn y gellir eu defnyddio:

- 3.1 Erlyn:- Gellir dwyn achos troseddol yn erbyn troseddwr honedig a bydd yr achos yn cael ei glywed yn y Llys gyda'r nod o sicrhau euogfarn troseddol a dedfryd briodol.
- 3.2 Rhybudd Ffurfiol:- Gellir rhoi rhybudd ffurfiol dan rai amgylchiadau i unigolyn sydd wedi cyflawni trosedd.
- 3.3 Cosbau Gweinyddol:- yn unol â deddfwriaeth Nawdd Cymdeithasol, bydd Cosbau Gweinyddol yn cael eu hystyried yn lle erlyn mewn achosion o Dwyll Budd-Dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor. Gellir cynnig cosb ariannol gwerth canran a bennwyd yn statudol o'r gordaliad gros i unigolyn os oes digon o dystiolaeth i erlyn.
- 3.4 Adfer Gordaliad a Chamau Llys Sifil:- Mae gofyniad diamod i ad-dalu arian a gafwyd drwy dwyll ynddo'i hun yn atal twyll a gall fod yn ychwanegol at unrhyw gosbau eraill perthnasol. Gall adferiad hefyd gynnwys camau Llys Sifil.

4 Y MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU PA SANCSIWN SY'N BERTHNASOL:

4.1 Bydd y sancsiwn a ddewisir yn ystyried:

- maint y twyll
- ei hyd
- a oes gan y troseddwr hanes o dwyll (os yn hysbys)
- amgylchiadau personol a chymdeithasol y troseddwr
- i ba raddau yr oedd y twyll yn fwriadol
- buddiant cyhoeddus
- ansawdd a phriodoldeb y dystiolaeth

- 4.2 Rhaid deall y bydd pob achos o dwyll yn cael ei drin yn rymus ac mai erlyniad fydd yn cael ei ystyried fel y sancsiwn optimwm. Yr AGP fyddai'n argymhell y sancsiwn priodol a'r Cyngor fyddai'n penderfynu a yw'n cytuno â hyn ai peidio ar gyfer yr elfen Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau: Arweiniad ar Sancsiynau

Gwerth y Twyll (£)	Sancsiwn a Argymhellir
0 – 2,000	Rhybudd Ffurfiol
0 – 2,000	Cosb Weinyddol
Dim maint penodedig, yn ddibynnol ar y canlynol:- 1. Gwrthodiad i dderbyn Rhybudd Ffurfiol/ Cost Weinyddol, a/neu 2. Troseddau tebyg wedi'u cyflawni o'r blaen, a/neu 3. Ymgais i gyflawni twyll lle nad yw unrhyw rai o'r sancsiynau eraill yn briodol	Erlyn

5 CYFRIFOLDEB DROS BENDERFYNU PA SANCSIWN I'W DDEFNYDDIO

- 5.1 Bydd yr AGP yn argymhell sancsiwn penodol ar ddiwedd ymchwiliad, yn bodloni ei hun fod y meini prawf priodol wedi'u diwallu ac yn cofnodi ei benderfyniad yn unol â hynny
- 5.2 Gan mai'r AGP sy'n ymchwilio i achosion o dwyll, cyfrifoldeb y Rheolwr Refeniw fydd y penderfyniad ynghylch pa sancsiwn i'w ddefnyddio ar ran y Cyngor mewn achosion Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor a bydd yn dibynnu ar bolisiâu a phenderfyniad yr asiantaeth partner.
- 5.3 Yr AGP fydd yn gyfrifol am weinyddu Erlyniadau neu Gosbau Gweinyddu y bydd y Rheolwr Cyllid yn eu hawdurdodi. Bydd y Cyngor fodd bynnag yn sicrhau y darperir y rhain yn unol â'r canllawiau deddfwriaethol priodol.
- 5.4 Adfer gordaliadau a chamau llys sifil
- 5.4.1 Gellir adfer Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor a ordalwyd drwy dwyll drwy'r system Dyledwyr neu o hawliadau cyfredol, neu drwy unrhyw system a gymeradwyir gan y Pennaeth cyllid yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.
- 5.4.2 Bydd unrhyw ordaliadau nad ydynt wedi'u talu'n ôl ar ôl cyfnod penodedig yn cael eu cyfeirio ar gyfer gamau Llys Sifil fel sy'n briodol yn unol â gweithdrefnau Dyledwyr y Cyngor.

6 CYHOEDDUSRWYDD AC ADRODD

- 6.1 Gan mai prif amcan y polisi hwn yw atal twyll, dylid rhoi cyhoeddusrwydd priodol i unrhyw erlyniadau llwyddiannus neu sancsiynau eraill os yn briodol. Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r AGP os credir fod hynny'n briodol er mwyn cyhoeddi achosion lle aethpwyd ag achos o ordalu Budd-dal Tai i'r Llys.

7 CADW'R POLISI YN AMSEROL AC YN BERTHNASOL

- 7.1 Mae'r polisi hwn ar gael i'r holl Aelodau Etholedig ac i staff y Cyngor ar y fewnrwyd.
- 7.2 Mae copïau o'r Polisi ar gael i gyfeirio ato gan staff sy'n rhan o erlyn achosion o dwyll neu weithredu sancsiynau eraill a chyfeirir ato yng nghynlluniau hyfforddi'r staff hynny.
- 7.3 Rhoddir copïau o'r Polisi i unrhyw sefydliad partner sy'n rhan o'r gwaith o atal twyll, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau ac unrhyw gontractwyr neu asiantau sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

ATODIAD 4

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU DISGWYLIEDIG

Rhanddeiliad	Cyfrifoldebau Disgwyliedig
Prif Weithredwr	Yn y pen draw, yn atebol fel Pennaeth y Gwasanaeth a Delir am effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i wrthwynebu twyll yn ogystal â llywodraethu corfforaethol.
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd (Swyddog Monitro)	<p>Cynghori'r Cynghorwyr a'r swyddogion ar faterion moesegol, safonau a phwerau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y Gyfraith a Chodau Ymarfer statudol. Gweithredu Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.</p> <p>Rhoi ar waith bolisi recriwtio diogel corfforaethol a monitro'r gydymffurfiaeth yn ei erbyn.</p>
Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151)	Mae gan y Pennaeth Cyllid ddyletswydd statudol, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adrannau 114 ac 116 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1995 i sicrhau gweinyddiaeth briodol o faterion ariannol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys Archwilio Mewnol a thwyll budd-daliadau.
Penaethiaid Gwasanaeth	Sicrhau bod risgiau twyll yn cael eu hystyried fel rhan o drefniadau rheoli risg corfforaethol y Cyngor. Sicrhau bod camau i liniaru risgiau yn y maes hwn yn effeithiol. Rhoi gwybod i'r Prif Archwilydd Mewnol am unrhyw dwyll sy'n codi mewn ffordd amserol.
Uwch Dîm Arweinyddiaeth	<p>Herio polisïau a strategaethau newydd i sicrhau bod risgiau twyll wedi'u hystyried.</p> <p>Adolygu'r fframwaith corfforaethol a ddyluniwyd i hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll pwysig yn rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso trefniadau i sicrhau effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth ag arfer gorau.</p>
Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	Monitro polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ac ystyried effeithiolrwydd y trefniadau i wrthwynebu Twyll.
Y Pwyllgor Safonau	Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn rhoi cyngor ar gynnwys a gofynion y Codau, Protocolau a'r gweithdrefnau eraill yn ymwneud â safonau ymddygiad ar hyd y Cyngor,

Aelodau Etholedig	Cefnogi a hyrwyddo datblygiad diwylliant gwrth-dwyll cryf.
Archwilio Allanol / Swyddfa Archwilio Cymru / Arolygiaethau Eraill	Dyletswydd statudol i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i atal a darganfod twyll a lladrad.
Archwilio Mewnol	Yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw faterion y gwneir adroddiadau yn eu cylch o dan y strategaeth hon. Adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghylch effeithiolrwydd y mesurau rheoli. Sicrhau yr ymdrinnir yn brydlon ac yn unol â'r Strategaeth â'r holl anghysondebau a amheuir neu yr adroddwyd yn eu cylch ac y dynodir camau i wella'r dulliau rheoli a lleihau'r risg y bydd yr un peth yn digwydd eto.
Uwch Reolwyr	Hyrwyddo ymwybyddiaeth staff a sicrhau bod yr holl anghysonderau a amheuir neu yr adroddir yn eu cylch yn cael eu cyfeirio'n syth at Archwilio Mewnol. Sicrhau bod mecanweithiau ar waith yn eu meysydd gwasanaeth i asesu'r risg o dwyll a lladrad a lleihau'r risgiau hyn trwy roi dulliau rheoli mewnol grymus ar waith.
Staff	Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, bod yn ymwybodol o bosibilrwydd twyll, a rhoi gwybod am unrhyw wir bryderon i'r rheolwyr priodol, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid (swyddog adran 151), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (Swyddog Monitro) neu Archwilio Mewnol.
Cyhoeddus, Partneriaid, Cyflenwyr, Contractwyr ac Ymgynghorwyr	Bod yn ymwybodol o bosibilrwydd twyll yn erbyn y Cyngor a rhoi gwybod am unrhyw bryderon neu amheuon diffuant. Sicrhau bod dulliau rheoli effeithiol ar waith i liniaru'r risgiau i'r Cyngor.

ATODIAD 5

Y 7 EGWYDDOR ARWEINIOL AR FYWYD CYHOEDDUS

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroi i lywodraethu corfforaethol cadarn ac mae'n cefnogi **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus** Pwyllgor Nolan ar gyfer ymddygiad Aelodau'r Cyngor a'r gweithwyr, sef:

- **Anhunanoldeb** - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau at ddibenion budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael buddiannau ariannol neu faterol eraill ar gyfer eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau.
- **Cywirdeb** – Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau ar y tu allan a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
- **Gwrthrychedd** – Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud apwyntiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion am wobrau neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau yn ôl teilyngdod.
- **Atebolrwydd** – Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u camau gweithredu i'r cyhoedd a rhaid iddynt gyflwyno'u hunain i ba bynnag swyddogaeth graffu sy'n briodol i'w swydd.
- **Didwylledd** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch pob penderfyniad a cham a gymerant. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a chyfyngu gwybodaeth dim ond pan fydd budd ehangach y cyhoedd yn mynnu hynny'n glir.
- **Gonestrwydd** – Mae gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.
- **Arweinyddiaeth** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth ac esiampl.

ATODIAD 6

SUT I ROI GWYBOD AM UNRHYW AMHEUAETH O DWYLL, ANGHYSONDERAU NEU BRYDERON ERAILL

Cysylltu â Gwasanaethau Archwilio Mewnol Sir Ddinbych

Cyswllt: Lisa Lovegrove

Ffôn – 01824 706936

E-bost – lisa.lovegrove@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at – Y Prif Archwilydd Mewnol (Cyfrinachol)

Gwella Busnes a Moderneiddio

Caledfryn, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Ffair, Dinbych LL16 3RJ

Cysylltu â Swyddog Monitro'r Cyngor

Unigolyn Cyswllt: Gary Williams – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol,
Adnoddau Dynol a Democrataidd

Ffôn – 01824 712562

E-bost – gary.williams@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at – Y Swyddog Monitro, (**Cyfrinachol**)

(Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a
Democrataidd)

Bwlch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 9AZ

Cysylltu ag Archwilydd Allanol y Cyngor

Ffôn – 029 2082 9350 neu

Ysgrifennwch at – Swyddfa Archwilio Cymru,

Llawr Gwaelod, Uned 5325,

Parc Busnes Gogledd Cymru,

Abergele, Conwy, LL22 8LJ.